

Cyngor Cymuned Llanelian (322)

Cofnodion cyfarfod Mai 5 2020 a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo am 7yh.

Presennol: Elfyn Hughes, Ian Evans, Dafydd Griffiths, John Griffiths, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Helen Hughes, Carli Evans Thau (Clerc)

Ymddiheuriadau: Thomas Jones, Cyng. Aled Jones, Cyng. Richard Jones, Hefina Williams (yn dilyn y cyfarfod – nam technoleg)

Yn absennol: Cyng. Richard Griffiths

1 Croeso

Cadeirwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol. Cytuno yn unfrydol ei fod yn siarad dros yr holl aelodau wrth gydymdeimlo a Thomas Jones yn dilyn profedigaeth diweddar.

2 Datgan Diddordeb

Carol Whitaker – materion yn ymwneud a Stryd y Capel

3 Trefniadau Covid-19

Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi anfon copi o'r canllawiau i gynghorau cymuned i'r holl aelodau er gwybodaeth. Ni fu cwestiynnau yn codi o'r canllawiau/rheoliadau.

3.1 Gwys a dogfennau – nodwyd mai dim ond drwy ebost fydd y wybodaeth yma yn cael eu hafnon tra bod y sefyllfa bresennol yn parhau.

3.2 Cyfarfodydd – mae posib cynnal cyfarfodydd drwy gynhadledd fideo. Roedd yr aelodau yn fodlon defnyddio rhaglen Zoom a cadarnhawyd bod camau priodol wedi eu cymryd i ddiogelu'r cyfarfod.

3.3 Cyfarfod blynyddol – o dan yr amodau nid oes angen cynnal cyfarfod blynyddol ym mis Mai (dim ond o fewn 2020). Cytuno cynnal y cyfarfod cyn gynted a bydd posib cyfarfod wyneb yn wyneb yn y Neuadd.

3.4 Dirprwyo penderfyniadau – nid oes posib dirprwyo i aelod, ond mae posib dirprwyo i swyddog. Cytuno yn unfrydol dirprwyo penderfyniadau i'r clerc gyda chefnogaeth y cadeirydd a'r is-gadeirydd ble fod angen, a chofnodi'r penderfyniad yn y cyfarfod nesaf.

4 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cymeradwywyd y cofnodion. Cynnig Helen Hughes, eilio John Griffiths.

5 Materion yn Codi o'r Cofnodion

5.1 Llifogydd – cafwyd ebost gan CSYM mewn ymateb i bryderon yr aelodau. Cytuno cysylltu yn ol nad oedd yr aelodau yn fodlon a'r ateb. Mae swyddog priffyrdd wedi datgan nad yw'r system bresennol yn ddigonol ac mae pryderon bod llifogydd o'r fath am fod yn fwy cyffredin. Nodwyd bod y cyngor wedi tynnu sylw CSYM at y diffygion yn y gully ers tair mlynedd neu mwy a bod angen gwabodaeth am amseru'r gwaith nad yw 'ar y rhaglen waith' yn ddigonol bellach. CT

5.2 Nwy – cafwyd map gan Wales and West Utilities yn dangos lleoliad y cyflenwad nwy agosaf – nid yw yn ymyl Penysarn o gwbl! Byddai yn gost enfawr i drigolion y pentref i ddod a'r gwasanaeth i'r ardal. Sgwennu yn ol i Mrs Rowlands i gadarnhau nad oes posib dod a nwy i'r pentref ar hyn o bryd. CT

5.3 Moderneiddio Ysgolion – dim diweddariad gan CSYM.

5.4 Lon drwy'r pentref – cytuno bod angen cyfarfod arbennig wyneb yn wyneb cyn gynted ag sydd bosib er mwyn trafod gwahanol opsiynnau, bydd wedyn cyfle i gynnal cyfarfod cyhoeddus i gyflwyno'r opsiynnau hynnu ar y cyd a swyddogion CSYM. Nodwyd bod

cwynion diweddar am gerbydau yn goryrru yn dilyn damwain ar allt Nebo.

5.5 Arwydd yn Sgwar – Mae'r tir feddianwr yn fodlon cadw'r hen arwydd yn ddiogel am y tro. Bydd angen disgwyl nes bydd cyfyngiadau Covid-19 wedi eu codi nes gweithredu ymhellach.

5.6 Bore Casglu Sbwriel – cafwyd adroddiad gan Dafydd Griffiths yn dilyn y digwyddiad. Diolchwyd iddo am drefnu'r digwyddiad ac am ei adroddiad.

6 **Sedd Wag**

Dim ond un cais dderbyniwyd ar gyfer cyfethol cyn y dyddiad cau. Cytuno gwahodd Arfon Morgans i ymuno a chyfarfod nesaf y Cyngor. CT

7 **Adroddiadau Pwyllgorau**

7.1 **Caeau Chwarae –**

Yn dilyn cwynion am faw ci ar facebook, cytuno yn unfrydol byddai cloi cae chwarae Lon Tyddyn Waen am y tro. Mae arwyddion eisioes i fynu wrth fynedfa y ddau gae chwarae ac mae bagiau baw ci i'w cael am ddim o amgylch y pentref. Cadarnhawyd nad oedd angen cloi Maes Llwyfo gan nodi bod peth ddefnydd o'r bin ysbwriel gan bobl yn cerdded heibio.

Cadarnhawyd bydd y meinciau coed yn cael eu trwsio cyn gynted ag y bydd rheoliadau Covid-19 yn cael eu ymlacio.

Nodwyd bod Gordon Hayes a Carol Whitaker wedi hau hadau blodau gwyllt yng nghornel Maes Llwyfo.

Mae'n debyg bod peth camddealltwriaeth ynglyn a'r gytundeb torri gwair ar gyfer y caeau chwarae. Nid yw'r contractiwr o'r farn ei fod wedi cael y gwaith i dorri Maes Llwyfo. Cadarnhawyd bod y ddau gae chwarae wedi eu henwi ar y tendr a gyflwynwyd ganddo. Y clerc i gysylltu ag o i gadarnhau. Nodwyd bod y cae angen ei dorri cyn gynted a phosib. CT

Cytuno cysylltu a CSYM a Grwp Cynefin ynglyn a cherrig a gwastraff adeiladu sydd wedi ei adael ar ymyl y ffordd, ar ffin Maes Llwyfo. Nid oes modd cynnal a chadw'r ardal fel ag y mae oherwydd fod peiriannau yn cael eu torri. CT

7.2 **Llithrfa** – nodwyd bod cwynion bod y postyn yn ei le a phobl yn swnian nad oedd mynediad i'r traeth! nodwyd byddai llai o incwm i'r cyngor os na fydd y cynllun llithrfa yn gael ei gynnal eleni oherwydd gwaharddiadau Covid-19.

7.3 **Mynwent –**

Daw prisiau am wahanol agweddau o'r gwaith cychwynol sydd ei angen yn y fynwent (dim costau torri gwair). Cytuno bod angen mwy o brisiau am y gwaith ac i gysylltu a'r rheini oedd wedi dangos didordeb yn y cytundebau torri gwair. CT

Trafodwyd bod peth cyfrifoldeb ar yr Eglwys i rannu costau am y fath waith. Cytuno cysylltu a hwy i ofyn am gyfraniad unwaith byddwn yn gwybod beth fydd y gost am y gwaith.

Giat y Fynwent – cytuno cysylltu a Richard Williams am ddyddiad pan fydd y giat yn cael ei gosod. CT

7.4 **Cyllid a Pholisi** – dim diweddariad.

7.5 **Cronfa Ty Moel Isaf (1717-1985)** – cafwyd cyfarfod cyhoeddus yn ol ym mis Chwefror, digon siomedig oedd y nifer o'r cyhoedd oedd yn bresennol. Cytuno na fydd y pwyllgor yn cwrdd nes fydd posib cwrdd wyneb yn wyneb. Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi cysylltu a CSYM am fwy o wybodaeth am gysgodfannau bws – mae'n debyg eu bod yn argymhell gwahanol fathau i'w gosod fel rhan o brosiect uwchraddio'r lon mewn rhai ardaloedd ar yr ynys (Wylfa Newydd).

7.6 Pwyllgorau Allannol – dim cyfarfodydd

8 Cynllunio

8.1 Ceisiadau –

Daw pedwar cais at sylw'r aelodau ers y cyfarfod diwethaf:

- Fairwinds, Llaneilian (FPL/2020/13) – mae'r cais eisioes wedi cael caniatad
- Coedmor, 4 Penysarn Fawr (HHP/2020/80) = dim gwrthwynebiad
- Lane Ends (FPL/2020/23) – dim sylwadau pellach
- Perthi, Llaneilian (HHP/2020/50) – dim gwrthwynebiad

CT

8.2 Penderfyniadau – dim wedi eu derbyn gan CSYM.

8.3 **Gorfodaeth** - daw ebost gan y swyddog gorfodaeth yn amlinellu'r camau sydd wedi eu cymryd yn erbyn dau achos. Y clerch i gysylltu eto am ddiweddariad erbyn y cyfarfod nesaf.

CT

8.4 Dwr Cymru

Daw ebost gan Dwr Cymru am y ffordd maent yn ymateb i geisiadau cynllunio. Cytuno bydd y Cyngor Cymuned yn parhau i dynnu sylw at bryderon wrth ymateb. Os bydd problemau yn y dyfodol, bydd y Cyngor wedi dwyn sylw a bydd cofnod ar ffeil.

8.5 Arall

Nododd Dafydd Griffiths bod cais ar y gweill gan Horizon am newidiadau i'r A5025. Cais am fwy o amser fydd hwn mae'n debyg. Nid oes cais wedi ei dderbyn gan CSYM eto, yn hytrach daw'r wybodaeth gan Horizon eu hunain.

9 Materion Ariannol

9.1 Taliadau

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –

- £293.46 Carli Evans Thau (cyflog Chwefror)
- £39.40 Dafydd Griffiths (costau teithio)
- £195.00 Cyngor Cymuned Llanbadrig (hyfforddiant)
- £262.40 HMRC (PAYE)
- £69.54 Viking Direct (adnoddau swyddfa)
- £293.66 Carli Evans Thau (cyflog Mawrth)
- £239.56 Carli Evans Thau (costau Ion-Maw)
- £50.00 DA Holdsworth (torri gwair)
- £468.06 Came and Co (yswiriant)
- £293.66 Carli Evans Thau (cyflog Ebrill)

9.2 Ceisiadau am Arian

Cyflwynwyd pedwar cais am gefnogaeth, cytuno yn unfrydol peidio a cyfrannu o gwbl ar hyn o bryd ac ail-asesu'r angen ymhellach yn y flwyddyn.

9.3 Adroddiad Cyllid

Nododd y clerch ei bod wedi anfon adroddiad chwarterol/diwedd blwyddyn, cysoni banc ac esboniad o'r prif wahaniaethau 18/19 a 19/20 i'r aelodau drwy ebost er gwybodaeth. Cadarnhawyd bod pawb wedi eu derbyn. Cadarnhaodd y clerch bod cyfle i unrhyw aelod weld y datganiadau banc ac unrhyw agwedd o'r cyfrifon ar unrhyw adeg. Mae'r dogfennau wedi eu paratoi ar gyfer yr archwiliad (gweler isod).

9.4 Archwiliad 2019/20

Nodwyd bydd yr archwiliad mewnol yn cymryd lle penwythnos nesaf 8/5/2020. Bydd angen cymeradwyo'r ffurflen blynyddol a'r adroddiad mewnol cyn diwedd mis Mehefin i'w hafnon i'r archwiliwr allannol.

10 Iechyd a Diogelwch

10.1 Nodwyd nad oedd y manhole ar Lon Gadfa wedi ei drin fyth. Y clerch i gysylltu a CSYM eto.

CT

11 **Arosfa Bws Pengorffwysfa**

Wedi ei drafod eisioes (gweler Cronfa TMI uchod)

12 **Gohebiaeth**

12.1 Dim. Cadarnhawyd bod gwybodaeth a ddaw gan CSYM am wahanol wasanaethau a diweddariadau am y sefyllfa Covid-19 yn cael eu hafnon drwy ebost i'r aelodau yn syth.

13 **Rheolau Sefydlog** – dim diweddariad. Cytuno bydd well gadael y ddogfen fel ag y mae tra bod rheoliadau Covid-19 yn parhau. Cytuno fodd bynnag edrych ar baratoi dogfen ddrafft i ddiweddarau'r rheoliadau.

14 **Unrhyw Fater Arall**

14.1 Pencampwyr y Gymuned – nododd Dafydd Griffiths ei fod wedi bod mewn cyfathrebiaeth gyda Virginia Crosbie a'i bod yn awyddus adnabod unigolion sydd codi i'r achlysur i wirfoddoli 'above and beyond' yn y cyfnod annodd yma er mwyn eu cydnabod.

15 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod cyffredinol nesaf Mehefin 2, 2020 am 7 o'r gloch
Bu'r cyfarfod orffen am 21.30

Arwyddwyd
Elfyn Hughes
Cadeirydd